# Dewiniaid Digidol Digital Wizards





Croeso mawr i dudalen y Dewiniaid Digidol yr ysgol – tîm arbennig o blant sydd yma i wneud y byd digidol yn fwy hwyliog ac yn haws i bawb! 🧙💻

Wyddoch chi pa mor aml rydych chi'n defnyddio sgiliau digidol?
Ein gwaith ni yw helpu pawb yn yr ysgol i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio sgiliau digidol – nid yn unig mewn gwersi penodol technoleg, ond ym mhob pwnc! 📚✨

Ond y peth pwysicaf? Rydyn ni yma i sicrhau fod pawb yn gwybod sut i gadw’ n ddiogel ar-lein.
Mae’ r rhyngrwyd fel hud – yn wych pan mae’ n cael ei ddefnyddio'n gywir, ond mae’ n rhaid bod yn ofalus hefyd. Felly, os oes gennych chi gwestiynau neu os ydych chi angen help, cofiwch ofyn i ni.

🚀 Gyda'n gilydd, gallwn wneud y byd digidol yn le gwych i bawb.

# Dewiniaid Digidol Digital Wizards





A big welcome to the Digital Wizards page - a special group of children who are here to make the digital world more fun and easier for everyone! 🧙‍♂️💻

Do you know how often you use digital skills?
Our job is to help everyone in school to feel more confident when using digital skills - not only in specific technology lessons, but across all subjects! 📚✨

But the most improtant thing? We are here to ensure that everyone knows how to stay safe online.
The internet is like magic - brilliant when it is used correctly, but you have to be careful too. So, if you have any questions or need any help, remember to ask us.

🚀 Together, we can make the digital world a great place for everyone.



# Ein Targedau / Our Targets



Eleni mae gennym ni lawer o dargedau cyffrous i weithio arnyn nhw. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn gwybod sut i ddefnyddio'r byd digidol yn hyderus ac yn ddiogel.

Dyma beth rydym ni' n bwriadu ei wneud:

1 Holiadur – Rydyn ni' n mynd i greu holiadur arbennig i ofyn i blant a staff sut maen nhw'n teimlo am ddefnyddio sgiliau digidol, a pha adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.

Bydd hyn yn ein helpu i ddeall ble gallwn ni fod o gymorth mwyaf.

2 Defnyddio llais y plant – Byddwn yn siarad gyda' r plant ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn i ddarganfod beth sy' n bwysig iddynt pan maent ar-lein. Beth sy'n mynd yn dda? Beth sydd angen gwella? Rydyn ni eisiau clywed eu straeon!

3 Creu cylchlythyr newydd – Rydym am gydweithio gydag Ysgol Betws i greu fformat newydd a mwy hwylus ar gyfer cylchlythyr yr Ysgol. Gobeithio bydd hwn yn edrych yn fwy deniadol a bydd yn haws i blant ddilyn beth sy'n digwydd yn yr ysgol.

4 Wythnos e-Ddiogelwch – Byddwn yn creu adnoddau arbennig ar gyfer Wythnos e-Ddiogelwch. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau i blant a staff, ac hefyd noson agored i rieni er mwyn i bawb ddysgu sut i gadw' n ddiogel ar-lein.

Rydym yn gyffrous iawn am y targedau hyn ac yn edrych ymlaen at gael gweithio' n galed i wella ein byd digidol ym Mro Elwern.

This year, we have lots of exciting targets to work on.

We want to ensure that everyone at school knows how to use the digital world confidently and safely,

This is what we aim to do:

1 Questionnaire – We are going to create a questionnaire to ask children and staff how they feel about uding digital skills, and what resources are available.

This will help us to undertstand where we can be of most use.

2 Using pupil voice – We will be speaking to the children at different times throughout the year to identify what is currently important to them when they' re online. What' s going well? What could be better? We want to hear their stories.

3 Create a new newsletter – Co-creating a new format for our newsletter with Ysgol Betws that will be more fun and child-friendly. Hopefully, it will look more presentable and easier for children to follow what is happening at school.

4 E-safety week – For e-safety week, we will be creating some special resources. This will include a presentation for children and staff at school, and also an open evening for parents to ensure everyone learns how to stay safe online.

We are very excited about our targets and are looking frowards to working hard to better our digital world at Bro Elwern.